



Cymraeg i oedolion

Mae **gofal, cymorth ac arweiniad** yn gryfder ym mhob darparwr. Canfu llawer o ddysgwyr bod parhau i allu dysgu Cymraeg ar-lein yn ystod y pandemig yn fuddiol i'w hiechyd meddwl a'u lles.

Beth sy'n mynd yn dda

- Er bod bron yn holl ddysgu'n digwydd ar-lein, mae darparwyr yn llwyddo i greu cymunedau clos, gofalgar o ddysgwyr.
- Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau eu gwersi. Maent yn ymarfer ac yn cyfrannu i wersi heb ofn wneud camgymeriadau, wrth wella eu medrau ochr yn ochr â dysgwyr ledled y byd.
- Mae darparwyr yn cynnig cymorth ac arweiniad effeithiol i ddysgwyr, gan gynnwys dysgu ag anghenion dysgu ychwanegol.

Beth sydd angen ei wella

- Nid yw'r holl ddarparwyr yn y sector wedi dychwelyd i gynnig dewis o ryw lefel o ddarpariaeth wyneb-yn-wyneb i ddysgwyr. Nid yw hyn yn bodloni anghenion yr ychydig o ddysgwyr a oedd yn anfodlon neu'n methu parhau â'u cyrsiau ar-lein, yn aml oherwydd cysylltedd gwael.



Mae ansawdd yr **addysgu** yn rhagorol mewn dau ddarparwr a arolygwyd ac yn ddigonol mewn un ohonynt. Lle mae addysgu yn effeithiol, mae tiwtoriaid yn defnyddio ystod o ddulliau i herio eu dysgwyr. O ganlyniad, mae **dysgwyr** yn gwneud cynnydd cryf.

Beth sy'n mynd yn dda

- Mae addysgu mewn dau o'r tri darparwr a arolygwyd yn effeithiol iawn ac yn cynorthwyo llawer o ddysgwyr i wneud cynnydd cryf.
- Mae llawer o diwtoriaid yn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud defnydd cynyddol o'r Gymraeg y tu mewn a'r tu allan i sesiynau ffurfiol. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio'r medrau hyn yn fuddiol ac yn integreiddio'n gadarnhaol â chymunedau a rhwydweithiau Cymraeg.
- Mae llawer o diwtoriaid yn darparu cyd-destun gwerthfawr a diddorol i'r dysgu drwy gyfoethogi gwybodaeth dysgwyr am hanes a diwylliant Cymru.

Beth sydd angen ei wella

- Nid yw ychydig o diwtoriaid ar draws darparwyr yn rhoi digon o sylw i gywiro ynganiad a goslef gwael.
- [Nid yw ychydig o diwtoriaid ar draws darparwyr yn annog dysgwyr yn ddigon da i ymestyn eu hatebion i gwestiynau. Mae hyn yn golygu bod cynnydd dysgwyr mewn siarad Cymraeg yn arafach nag y gallai fod.](#)



Mae gan **arweinwyr** ym mhob darparwr weledigaeth a nodau clir sy'n alinio'n dda â mentrau polisi cenedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gweithredol. Maent yn cydweithio'n dda â'r Ganolfan Genedlaethol i gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i wella medrau addysgu tiwtoriaid.

Beth sy'n mynd yn dda

- Mae darparwyr Dysgu Cymraeg yn chwarae rhan bwysig mewn dylanwadu ar ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg yn eu sefydliadau lletyol.
- Mae llawer o'r darparwyr a arolygwyd yn defnyddio ymchwil i wella addysgu a dysgu mewn meysydd fel dulliau dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n helpu dysgwyr i integreiddio mewn cymunedau a rhwydweithiau Cymraeg.
- Mae'r sector yn cynnig datblygiad proffesiynol parhaus i'w tiwtoriaid, er enghraifft i wella eu dealltwriaeth o sut mae dysgwyr yn dysgu ac yn caffael iaith neu gyflwyno ar-lein.

Beth sydd angen ei wella

- Nid yw systemau data cenedlaethol yn caniatáu i ddarparwyr sydd â chyfrifoldeb gorgyffwrddol am yr un ardal ddaearyddol olrhain cynnydd dysgwyr. Mae hyn yn atal darparwyr rhag defnyddio data'n effeithiol i ddilysu safonau a chynnydd dysgwyr sy'n symud rhyngddynt.
- Mewn un darparwr, nid yw gweithgareddau monitro a gwerthuso yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella mewn addysgu a dysgu yn ddigon da.